BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**10 Chwefror 2023**

**9:00 am to 12:00 yp**

**Dros Zoom**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Alwyn Williams, Ann Lloyd (yn bresennol ar ran Nicola Stubbins), Ann Woods, Catrin Roberts, y Cyng. Dilwyn Morgan, y Cyng. Elen Heaton, y Cyng. Christine Jones, y Cyng. Alun Roberts, y Cyng. John Pritchard, Craig Macleod (yn bresennol ar ran Neil Ayling), Dave Hughes, Dylan Owen, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fon Roberts, Jenny Williams, Lindsey Duckett, Liz Grieve, Meinir Williams-Jones, Michelle Greene, Rhun ap Gareth, Roger Seddon, Shan Lloyd Williams, Sharon Hinchcliffe, Sian Tomos, Siobhan Gothorp, Steve Greyston (yn bresennol ar ran Libby Ryan-Davies) |
| Ymddiheuriadau: | Y Cyng. Liz Roberts, Dr Lowri Brown, Lucy Reid, y Cyng. Dilwyn Morgan, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Libby Ryan-Davies, Gill Harris, Teresa Owen |
| Hefyd yn bresennol: | Shelley Davies, Pennaeth Partneriaeth ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 2)<br>Matt Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr (Dyfodol ac Integreiddio), Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 2)<br>Sally Rees, Pennaeth Arfarnu a Modelau Newydd Gofal, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 2)<br>Richard Ellis, Pennaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 2)<br>Gillian Paul, Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (ar gyfer eitem 3)<br>Kim Killow, Cymorth Cyllid Ychwanegol Anableddau Dysgu (ar gyfer eitem 4)<br>Lisa Goodier, Cyflwyniad ar Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (ar gyfer eitem 5)<br>Joseph Griffiths, Rheolwr y Rhaglen Gyfalaf Ranbarthol (ar gyfer eitem 7) |

## 1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd y bwrdd: Liz Grieve, Cynrychiolydd Tai Awdurdodau Lleol y BPRhGC, a Rhun ap Gareth, Cynrychiolydd y BPRhGC.

Diolchwyd i Sam Parry, Cynrychiolydd Tai Awdurdodau Lleol, a Trudy Ellis, Cynrychiolydd Gofalwyr, am eu gwaith.

## 2 Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Matt Jenkins, Shelley Davies, Richard Ellis a Sally Rees o Lywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Bwrdd, yn dilyn y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

Roedd cais gan y Gweinidog, i'r system eleni fod yn rhan o waith dyfnach ar ddull integredig o ymdrin â bregusrwydd, sydd wedi bod yn her fawr dros y gaeaf am nifer o flynyddoedd.

Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y bartneriaeth, ac roedd wedi'i hadeiladu ar brofiad blaenorol, a gwersi a ddysgwyd o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Drawsnewid. Mae yno bob amser heriau wrth symud o gronfeydd sy'n cefnogi prosiectau i'r prosiectau hynny wedyn yn dod yn rhan o ddarpariaeth prif ffrwd.

Cwtogi cyllid mewn camau a chyllid cyfatebol ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

Dros bum mlynedd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, cynlluniwyd i lefel adnoddau Llywodraeth Cymru gwtogi ar gyfer prosiectau unigol, ac roedd disgwyl i bartneriaid statudol a sefydliadau statudol wedyn ddechrau llenwi'r bwlch hwnnw, er mwyn i'r prosiectau hynny groesi i gael eu hariannu yn y brif ffrwd. Roedd disgwyl hefyd i'r partneriaid gyfrannu eu cyllid cyfatebol eu hunain.

Oherwydd y cyd-destun ariannol anodd dros y flwyddyn galendr ddiwethaf, mae'r elfen o gwtogi'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol mewn camau wedi'i ohirio tan 2024/2025. Ar ben hynny, mae'r gofyn am gyllid cyfatebol i dri Model Cenedlaethol o Ofal Integredig yn ymwneud â chymorth therapiwtig, iechyd a lles emosiynol i blant a datrysiadau llety, hefyd wedi cael ei ohirio tan 2024/2025.

Bydd angen i'r BPRh barhau i ddarparu'r elfen gyfatebol ar gyfer y tri model cenedlaethol o ofal integredig a fydd yn cefnogi cynyddu capasiti yn y gymuned yn uniongyrchol (cydlynu cymunedol, gofal cymhleth yn nes at gartref, ac adref o'r ysbyty), gan dynnu adnoddau craidd ehangach i mewn fel cyllid cyfatebol i'r meysydd blaenoriaeth hyn.

Pwysau Gweithlu

Mae nifer o sectorau'n cael trafferth ar hyn o bryd mewn argyfwng marchnad lafur, sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol yn benodol. Cadarnhaodd y Senedd yr wythnos hon y byddai'n darparu cyllid ychwanegol i alluogi talu'r cyflog byw gwirioneddol diweddaraf i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan.

- Bydd ALlau a Byrddau Iechyd Cymru'n cael amcangyfrif o £70m yn 2023–24 i gyflwyno'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn canolbwyntio ar welliannau eraill yn nhelerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Bydd buddsoddiad sylweddol i gefnogi recriwtio a dal gafael ar staff gofal cymdeithasol yng Nghymru, gydag ymgyrch recriwtio dyfal.

Dywedodd SD bod gwaith wedi'i wneud gan y pum grŵp tasg a gorffen dros y naw mis diwethaf dan y Rhaglen Ailgydbwyso a Chefnogi Gofal. Lluniwyd papur gwyn, a oedd yn ymgynghori ar gynnig i wneud BPRh yn endidau cyfreithiol corfforaethol.

Bu ymateb aruthrol, oedd yn credu bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn ddigon. Diddorol oedd nodi bod cynrychiolwyr darparwyr eraill a'r trydydd sector o blaid gwneud BPRh yn fwy o endidau cyfreithiol corfforaethol. Penderfynwyd adolygu'r trefniadau presennol o ran llywodraethu a chraffu, perfformiad a chynllunio, ymgysylltu a rhoi llais, gwasanaeth integredig, darpariaeth ac ail-gydbwyso'r marchnadoedd gofal. Mae canllawiau cyfredol wedi'u haddasu a'u diweddaru, ac mae drafftiau wedi'u rhannu.

Newidiadau i ganllawiau Rhan 9

Mae'r prif feysydd newid yn cynnwys:

- Cyd-destun polisi plaen
- Diffinio cwmpas a chylch gwaith BPRh
- Newid y rhestr aelodaeth
- Pwyslais ar greu'r amgylchedd cywir i gydweithio, o ran adnoddau, cefnogaeth i Gadeiryddion a chyfranogiad gan amrywiaeth o bobl
- Cydymffurfio â threfniadau cynllunio a darparu traws-glwstwr a chlwstwr. Mae'n bwysig i ofal sylfaenol gael ei gynrychioli'n iawn wrth y bwrdd.
- Egluro disgwyliadau craffu, atebolrwydd a rheoli perfformiad.

Ym Mhennod 4 y gwnaed y newidiadau mwyaf yma, ynghlwm â'r ddyletswydd yn Adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, sefydliadau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector. Mae newidiadau allweddol i'r ffordd rydym ni'n disgrifio gwerth cymdeithasol a gwerth ychwanegol, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth nid er elw preifat.

Mae'r holl waith ynghlwm ag ymgysylltu, rhoi llais a chynnwys pob un wedi'i symud i bennod ar ei ben ei hun, eto i helpu i wneud profiadau a dysgu'n rhan greiddiol ohono, a cheisio cynnwys disgwyliadau mwy eglur ynglŷn â beth fyddai'n effeithiol o ran ymgysylltu, rhoi llais a chyd-gynhyrchu.

Mireinio Cwmpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bydd ymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau integreiddio ar gyfer gwasanaethau cymunedol, gan weithio'n rhanbarthol, yn lleol ac ar lefel clystyrau. Nid yw'r ymgyrch i newid i fodelau gofal rhanbarthol a chenedlaethol yn gysyniad newydd

– roedd wedi'i gynnwys yn uchelgais o fewn Cymru Iachach. Bwriad y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Drawsnewid oedd datblygu hynny, ac er bod rhai camau wedi'u gwneud yn y maes hwnnw, mae rhagor o waith i'w wneud. Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol bellach wedi'i chreu i ddatblygu hyn.

Mae gofyn ychwanegol am gynllun cyflawni blynyddol, fel y bydd y sicrwydd hwnnw gan Weinidogion. Mae BPRh yn gwneud hyn eisoes drwy'r broses cynllunio busnes, ond bydd yn dod yn rhan o'r adroddiad blynyddol, yn canolbwyntio ar gerrig milltir allweddol a chyflawniadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r pwysau enfawr sydd ar ein systemau wedi bod yn amlwg dros y gaeaf. Mae'r her o boblogaeth fwy bregus wedi dod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy ei rôl yn y GIG, a hefyd ar gais llywodraeth leol a phartneriaid eraill, eisiau datblygu menter i gryfhau capasiti yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer pobl fregus.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig, fel y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, wedi bod yn rhan o ymdrech i ganfod nodweddion y modelau gofal mwyaf effeithiol, a lledaenu'r rheiny'n gyson ar draws y system. Y bwriad gan Lywodraeth Cymru rŵan yw gweithio'n agos, er mwyn galluogi hyn yn gynt dros y misoedd nesaf.

Wrth iddi droi'n wanwyn, y nod yw cychwyn yn gydgynhyrchiol ar gam datblygu, i edrych ar y fanyleb gymunedol honno. Rôl BPRh fydd datblygu'r gwaith hwn a goruchwylio sut mae'n cael ei gyflawni'n rhanbarthol a lleol.

Datblygu System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru – rôl BPRh

- Creu un weledigaeth ranbarthol i weithredu'r fanyleb genedlaethol
- Dangos arweinyddiaeth gydweithredol i annog gweithredu a'i gwneud yn drefn brif ffrwd
- Rhannu gwersi a ddysgwyd a phrofiad, gan hyrwyddo'r arferion gorau
- Sefydlu system o wella'n barhaus
- Chwilio am gyfleoedd i gronni adnoddau i gefnogi gweithredu'n effeithiol
- Adnabod, herio a goresgyn rhwystrau i gynnydd
- Sicrhau bod cynllunio, dylunio a darparu gwasanaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i gyd-gynhyrchu

Dywedodd MG fod trafodaethau wedi cychwyn rhwng cydweithwyr iechyd ac awdurdodau lleol ynglŷn â sut i ddatblygu ar yr agenda hwn, ac mae'n bwysig nad ydym yn colli'r integreiddiad ehangach â phartneriaid eraill o amgylch y BPRh.

Cododd EH a JW bryderon ynglŷn â mwy o gymhlethdod, a gor-gynllunio, ac effeithiolrwydd byrddau o'r maint hwn, gan y gall olygu colli ffocws ar gydweithio i wneud pethau'n well i'r dinesydd. Fe wnaeth RS hefyd godi pryderon am y prosesau ymgynghori yn y gymuned, ac am gynnwys llais y dinesydd.

*Cam Gweithredu*

- CR – papur trafod a'r sleidiau i gael eu rhannu ar ôl y cyfarfod.

## 3 Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru

Rhoddodd Gillian Paul, Rheolwr Uned Datblygu'r Gweithlu yng Ngwynedd ddiweddariad ar Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a gofynnodd am farn ynglŷn ag unrhyw flaenoriaethau ychwanegol eraill.

Grant gan Lywodraeth Cymru ydyw, sy'n cael ei reoli drwy Ofal Cymdeithasol Cymru, yn canolbwyntio ar gefnogi uchelgais Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a pharhau i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'r meysydd a nodwyd yn yr Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

Y cam gweithredu yma fydd cynlluniau rhanbarthol cyffredinol sy'n unol â Blaenoriaethau Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth. Bydd gan bob ALl gynlluniau unigol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyflawni ym mhob ALl.

Dywedodd RS fod fframwaith rheoli prosiectau, hyfforddiant cynllunio wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Prydain, ac mae'n edrych yn fanwl ar hyfforddiant rheoli, gyda gogwydd tuag at gynllunio prosiectau, ac mae cyfle i gynllunwyr y gweithlu edrych ar ddogfen gynllunio debyg.

Cytunodd GP – mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n gwneud gwaith sylweddol ar gynllunio'r gweithlu cenedlaethol ar hyn o bryd, a gallai fod yn ddefnyddiol yn ystod y cam datblygiadol hwn.

Ychwanegodd LG fod cyfle i siarad â chydweithwyr ym maes tai am hyfforddiant y gallai swyddogion tai elwa ohono. Os gwnawn ni hyfforddi pobl gyda'i gilydd, mae mwy o gyfle i wasanaethau a sefydliadau gydweithio. Dywedodd SG fod gwasanaethau yn aml yn cystadlu am yr un lle ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ar lefel amser gofal iechyd ac amser cynorthwywyr, a sut mae hynny'n gysylltiedig â chomisiynu'r gweithlu ar lefel genedlaethol. Cytunodd GP fod angen amlygu hyn a mynd i'r afael ag o yn y cynllun.

## 4 Cymorth Cyllid Ychwanegol Anableddau Dysgu 2022–202

Cymorth Cyllid Ychwanegol Anableddau Dysgu 2022–2023

Ymunodd Kim Killow, Swyddog Arweiniol Cynllunio a Datblygu, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, ar ran Katherine Whitfield, i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ystyried cynnig Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd ynghlwm â dyrannu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig tua £50,000 i bob BPRh yng Nghymru o danwariant ynghlwm â Chynllun Gweithredu Strategol Anableddau Dysgu 2022–2026 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

Mae LIC wedi dweud ei bod yn rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi gwasanaethau anableddau dysgu a/neu bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd neu

ofalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chefnogi amcanion strategol sydd eisoes yng nghynlluniau BPRh ac sy'n cyd-fynd â modelau gofal a chanlyniadau cysylltiedig y Gronfa Integreiddio Ranbarthol.

Cynigir bod yr arian ychwanegol yn cael ei rannu rhwng y 6 Awdurdod Lleol a'i ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau dydd sydd wedi'u comisiynu eisoes ym mhob sir.

Byddai'r ffocws ar gyfnod y gaeaf, i ddarparwyr gynnal digwyddiadau a fyddai'n gysylltiedig â'r Pum Awgrym Llesol, i bobl sydd heb ddychwelyd at wasanaethau gan eu bod yn parhau i hunanynysu.

Cytunodd y bwrdd yn ffurfiol ar yr eitem.

## 5 Cyflwyniad ar Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Ymunodd Lisa Goodier, Strategaeth a Phartneriaethau, BIPBC, i roi diweddariad ar waith sydd wrthi'n cael ei wneud ar ddatblygu Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Gweledigaeth

Erbyn 2025, rydym ni eisiau i bobl Gogledd Cymru fod â'r iechyd meddwl a'r lles gorau bosib' fel maen nhw'n ei ddiffinio. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael y gefnogaeth maent ei hangen, pryd a lle maent ei hangen.

Strategaeth i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ar draws Gogledd Cymru

- Mynd i'r afael â'r heriau o fewn ein gweithluoedd
- Y gefnogaeth gywir wrth ofyn y tro cyntaf
- Blaenoriaethu atal yn y gymuned
- Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar les meddyliol poblogaeth Gogledd Cymru. Mae traean o oedolion wedi dweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y pandemig Covid-19 o gymharu â chyn mis Mawrth 2020.

Wrth ddisgwyl am y rhifyn cenedlaethol newydd o'r strategaeth yn 2022, comisiynodd Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru adolygiad o'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru gan ddymuno mabwysiadu dull systemau cyfan.

Penodwyd Do-Well Ltd i gynnal cyfres o weithdai a fyddai'n caniatáu i'r system bwyso a mesur sut roedd pethau'n gweithio a dynodi blaenoriaethau i weithredu arnynt. Roedd cynrychiolaeth yno o'r maes iechyd, awdurdodau lleol, darparwyr tai, defnyddwyr gwasanaeth, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Bydd gweithdy arall yn cael ei gynnal ar 28 Chwefror, ac mae croeso i aelodau'r bwrdd ymuno â hwnnw. Nod y sesiwn fydd sicrhau bod yr hyn a ddatblygodd o'r tri gweithdy blaenorol wedi'i drosi'n effeithiol yn y strategaeth ddrafft.

Y nod yw i'r BPRh fod yn berchen ar Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan fod amrywiaeth o bobl wrth y bwrdd, a phawb â gwahanol safbwyntiau ac amcanion.

Dywedodd MW fod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu £10.8 miliwn mewn grantiau drwy ei rhaglen Mind Our Future i bartneriaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl a gwytnwch pobl ifanc ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth ar ôl Covid-19, a allai gyfrannu at y gwaith hwn.

Bydd prosiect Meddwl Ymlaen Gwynedd gan Barnardo's Gogledd Cymru, a gafodd £1,419,281, yn cyd-gynhyrchu datrysiadau, gan arwain at ddyfodol mwy cadarn a meddyliol iach i bobl ifanc 11-25 oed yng Ngwynedd a Môn.

Ychwanegodd LG ei bod yn hanfodol cofio am wasanaethau cymunedol y tu hwnt i Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Mae timau tai, llyfrgelloedd, cefnogi cyflogaeth i gyd yn bartneriaid pwysig mewn dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac maent eisoes yn gwneud gwaith sylweddol ar atal.

## 6 Diweddariad BIPBC

Daeth Karen Higgins, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol BIPBC, i'r cyfarfod ar ran Gill Harris i roi diweddariad ar BIPBC.

Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ddarparu gwelliant i'r gwasanaeth 111 sydd bellach yn 111 + 2, sy'n rhoi cyfle i bobl gael gwybodaeth a chael eu cyfeirio i gael cefnogaeth a help pan maent mewn argyfwng iechyd meddwl neu angen gofal mewn argyfwng.

Mae Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru bellach wedi tynnu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, gwasanaethau Gogledd Cymru i rai yn eu harddegau, o gael ymyrraeth wedi'i thargedu, sy'n brawf gwych o'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae bron bob claf yn cael gofal yng Ngogledd Cymru yn hytrach na'u hanfon i rywle arall, sy'n tynnu llwyth o bwysau oddi ar gleifion a'u teuluoedd.

Cynhaliwyd arolwg ar wasanaethau fasgwlaidd ym mis Rhagfyr 2022, ac nid oedd unrhyw feysydd yn peri pryder mawr. Bydd adroddiad llawn ym mis Mawrth. Mae cydnabyddiaeth wedi'i rhoi i waith mae BIPBC yn ei wneud ynghlwm â chyn-filwyr ac ymwybyddiaeth o gyn-filwyr sydd wedi cael canmoliaeth fawr, nid yn unig am adnabod cyn-filwyr pan maent yn dod i gael triniaeth, ond hefyd am waith sy'n cael ei wneud i alluogi cyn-filwyr i mewn i'r gweithlu, a chydnabod y setiau o sgiliau maent yn eu darparu i'r gweithlu.

## 7 Y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

•Adroddiad diweddaru ar lithriad y Gronfa yn Chwarter 3

•Adroddiad diweddaru ar gyfalaf

Rhoddodd Siobhan Gothorp, Rheolwr Prosiectau Rhanbarthol, ddiweddariad ar y Gronfa Integreiddio Ranbarthol.

Yn Chwarter 3, roedd y gwariant ychydig dros £17 miliwn, ac roedd hynny yng nghyd-destun amcangyfrif o wariant o £21 miliwn, gyda thanwariant o £4.4 miliwn. Mae 152 o brosiectau o fewn 40 cynllun rhanbarthol yn y 6 model gofal.

Mae swyddogion arweiniol yn parhau i ddweud mai'r tair thema gyffredin ar gyfer tanwariant yw heriau recriwtio, oedi wrth anfonebu a phrosesu hawliadau, a chymryd mwy o amser na'r disgwyl i sefydlu'r prosiectau.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae 22 o gynlluniau â sgôr oren, ond mae disgwyl i'r rhain i gyd fod yn wyrdd erbyn diwedd Ionawr, gyda chynllun cadarn ar waith i wario unrhyw lithriadau.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod yn ffurfiol am lefel y cyllid ar gyfer Cronfa Integredig Ranbarthol 2022/23. Fodd bynnag, mae rhai llythyrau wedi'u derbyn, yn cadarnhau rhai elfennau o'r ad-daliadau. Mae disgwyl i lefel y cyllid barhau'r un fath, ac eithrio rhywfaint o gyllid ychwanegol i ofalwyr di-dâl sy'n dod i'r rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud, yn sgil y system gyfredol o bwysau ariannol, y bydd y gofynion am ddirwyn y cyllid i ben yn raddol yn cael ei ohirio dros dro, a'r gofynion am arian cyfatebol, ar gyfer tri o'r chwe model gofal. Mae buddsoddiad o £13.5 miliwn o arian cyfatebol yn y Gronfa Integreiddio Ranbarthol gyfredol, ac ychydig dros £11 miliwn, tua 83%, o fewn y tri model gofal nad oes modd lleihau'r arian cyfatebol ar eu cyfer.

Dyraniad BPRhGC ar gyfer 2022/23 yw £14.2 miliwn. Mae wyth prif gynllun wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor gan LlC yng nghyfarfodydd panel mis Hydref a Thachwedd y Gronfa Tai â Gofal. Cyfanswm gwerth y cynlluniau hyn yw tua £22.2 miliwn.

Rhagwelir y bydd gan bartneriaid bum cynllun ychwanegol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyfanswm gwerth y rhain ychydig dros £11.2 miliwn, gyda swm i'w dynnu i lawr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon o £2.8 miliwn.

Bydd tua £6.5 miliwn yn cael ei dynnu i lawr ar amcan un ac amcan dau ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal.

Cyllid y Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn a'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl

Mae LlC wedi dweud bod cyllid o hyd at £711,850 wedi'i ddyfarnu i'r rhanbarth i'w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae partneriaid wedi cadarnhau bod modd gwario'r arian hwn i gyd yn ychwanegol at ddyfarniad y Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn o £1.423 miliwn, y mae partneriaid hefyd wedi cadarnhau y bydd yn cael ei wario i gyd.

Diweddariad ar Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso

Mae pedwar cynllun wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor gan LIC drwy gyfarfod panel braenaru a phanel mis Tachwedd y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso. Rhagwelir y bydd gan bartneriaid ddau gynllun ychwanegol i'w cyflwyno i Banel Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Fel mae canllawiau'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso yn ei nodi, mae angen i bob BPRh lunio Cynllun Cyfalaf Strategol (CCS) 10 mlynedd sy'n dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adfywio ynghyd i ddatblygu cyfleusterau darparu gwasanaeth integredig a datrysiadau llety integredig.

Mae'r Tîm Rhanbarthol wedi bod yn gweithio ar benodi ymgynghorydd a phartner ymchwil i gefnogi datblygu'r CCS ac maent wedi penodi Sirius Partners Ltd i ddatblygu'r CCS, ac mae'r drafft cyntaf i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2023 a'r fersiwn terfynol i gael ei gyflwyno erbyn 31 Gorffennaf 2023.

Ar ôl cael yr enwebiadau ar gyfer Bwrdd y Gronfa Gyfalaf, bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 1 Chwefror 2023. Bydd y cyfarfod yn cytuno ar Gylch Gorchwyl ac yn cadarnhau'r strwythur a'r aelodaeth ar gyfer y Grŵp Llywio Cyfalaf, sydd i gael ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

## 8 BPRhGC – Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Ddrafft 2022–23

Mae cyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

Mae posib' codi eitemau ychwanegol i'w trafod, i'w cynnwys ar y rhaglen waith.

*Cam Gweithredu*

- Eitemau ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol i gael eu rhannu â CR/RW

## 9 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Rhagfyr 2022

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Ionawr 2023 yn gywir.

## 10 Unrhyw fater arall

Dim i'w drafod.

**11 Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Gwener 10 Mawrth 2023 – cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Fusnes Conwy.